# COFNODION O GYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG PWNC A CHRAFFU 2 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB,DDYDD LLUN, 8 GORFFENNAF 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| C Davies | GH Haines | M Lewis | R J Smith |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | |
|---|---|---|
| J Llewellyn-Hopkins | R L Penhale-Thomas | R Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Ford, D T Harrison ac A Wathan

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Y Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Shagufta Khan | Arweinydd Gwaith Cymdeithasol yn y maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| Jason Howells | Rheolwr Grŵp - Rheolwr Gwasanaeth Rhwydwaith Clwstwr Integredig |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd / Swyddog Craffu Dros Dro - Pwyllgorau |

Datganiadau o Fuddiant

M Lewis – Eitem 4 – Personol – Canolfan Gymunedol – Cwm Garw.
R J Smith – Eitem 4 – Personol – Rhedeg cwmni o fudd cymunedol sy'n cefnogi plant ac oedolion ifanc gydag anghenion ychwanegol ledled Porthcawl a'r fwrdeistref yn gyffredinol.

## 1. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 2 a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2024 fel rhai gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Gorffennaf 2024 |

## 2. Adeiladu ar Gryfderau, Gwella Bywydau - Cynllun Tair Blynedd ar gyfer Gofal Cynaliadwy a Chefnogaeth i Oedolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, daeth y Pwyllgor i'r casgliadau canlynol:<br><br>**Sylw cyffredinol**<br>1. Mynegodd y Pwyllgor bryder y gallai cysoni ein blaenoriaethau â rhai'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid eraill greu heriau o ran darpariaeth gwasanaeth.<br><br>2. Roedd pryder ynghylch y cyllid posibl sydd ar gael i symud ymlaen gyda'r cynlluniau, o ystyried sefyllfa gyfredol, a dyfodol disgwyliedig anodd y gyllideb, a byddai'r Pwyllgor yn monitro hyn wrth symud ymlaen.<br><br>**Argymhellion**<br><br>3. Oherwydd yr angen am fwy o waith partneriaeth, **argymhellodd** aelodaufod angen sicrhau bod y cynigion ar gyfer dyfodol Gofal Cynaliadwy i Oedolion yn integredig â gwaith Cyflogadwyedd Pen-y- |

| | |
|---|---|
| | bont ar Ogwr, ac yn gydnaws â'r gwaith.<br><br>4. Mynegodd y Pwyllgor bryder dros y diffyg data perfformiad, ac o ganlyniad, roedd gwerthuso cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn anodd, ac **argymhellodd** i hyn gael ei ystyried ar gyfer cynllun ac adroddiadau yn y dyfodol.<br><br>5. Roedd aelodau yn ganmoliaethus ynglŷn â'r Cynllun ac yn teimlo bod angen i'r Ardal Wasanaeth ei hyrwyddo ymhellach i bwysleisio'r gwaith a gyflawnwyd i ddatblygu'r Cynllun, y cynigion a'r canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y gymuned gyfan. O ganlyniad, **argymhellodd** y Pwyllgor yr angen brys i arddangos a hyrwyddo gwerth y model gweithredu newydd ymhellach, fel enghraifft posibl i ardaloedd gwasanaethau eraill o safbwynt sut i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol o fewn cyfyngiadau cyllidebol a ddiffiniwyd.<br><br>6. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod angen ail-ymweld â'r ohebiaeth gyda'r aelod Senedd lleol ynghylch mynychu'r bord gron iechyd meddwl, ac y dylid anfon cais dilynol.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol**<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor gais i:<br><br>7. Ddata perfformiad perthnasol gael ei anfon i Aelodau cyn gynted ag y bydd ar gael, yn hytrach na disgwyl am gyfarfodydd yn y dyfodol.<br>8. Aelodau dderbyn gwybodaeth am yr ymarfer ymgynghoriad BAVO drwy e-bost.<br>9. Aelodau dderbyn copi o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd drwy e-bost.<br>10. Yn ogystal â'r ford gron iechyd meddwl, roedd angen adnabod grwpiau a chyfarfodydd lleol eraill sy'n darparu gwasanaethau perthnasol, ond nad yw eu gwaith o reidrwydd yn gyfarwydd i Aelodau. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Gorffennaf 2024 |

## 3. Adroddiad Enwebu Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: |

| | |
|---|---|
| | Y dylid enwebu'r Cynghorydd J Llewellyn-Hopkins i gynrychioli'r Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 2 fel unigolyn gwahoddedig i gyfarfodydd Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Gorffennaf 2024 |

## 4. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A, nodwyd y Daflen Camau Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nodwyd y byddai adroddiad ar yr FWP, y Daflen Camau Gweithredu Monitro Argymhellion ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu.<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor gais am friff ar COR-2024-01 ar yr Asesiad Risg Corfforaethol: Y bygythiad i barhad busnes os nad yw'r Cyngor yn gallu caffael a rhoi systemau TGCh mawr ar waith sy'n cefnogi gwasanaethau hanfodol megis system amgen ar gyfer Cyfarwyddwr Gofal (WCCIS)."<br><br>Roedd angen i ddatrys pa bwyllgor craffu sy'n mynd i'r afael â'r mater Grantiau Cyfleusterau Anabl. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Gorffennaf 2024 |

## 5. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Gorffennaf 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

**PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD LLUN, 8 GORFFENNAF 2024**

Daeth y cyfarfod i ben am 11:55.